PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY



Cefnogaeth

i fyfyrwyr sydd wedi gadael gofal

www.bangor.ac.uk

Ym Mhrifysgol Bangor, rydym yn rhoi blaenoriaeth uchel i ofalu am ein myfyrwyr a rhoi cefnogaeth iddynt. Adlewyrchir hyn yn y ffaith fod Bangor yn cael ei hystyried **yr uchaf o blith prifysgolion Prydain am ei chymorth a'i chefnogaeth i'w myfyrwyr** (*Times Higher Education Supplement*).

Mae Bangor yn cynnig gwasanaeth lles cynhwysfawr i'w myfyrwyr, yn cynnwys darparu cefnogaeth i fyfyrwyr sydd wedi gadael gofal. Felly, fel myfyriwr sydd wedi gadael gofal i ddod i Addysg Uwch, neu fel rhywun sy'n rhoi cyngor i fyfyriwr sydd wedi gadael gofal, gallwch fod yn sicr y cewch y gefnogaeth a'r wybodaeth angenrheidiol ym Mangor. Mae'r gefnogaeth hon i'w chael o'r cam rhag-fynediad, tra byddwch yn dal i geisio penderfynu lle neu beth i'w astudio, ac mae'n parhau ar gael i chi drwy'r broses gwneud cais am brifysgol ac ar ôl i chi ddechrau ar eich cwrs yma.

Mae aelod staff yng Nghanolfan Gwasanaethau Myfyrwyr y Brifysgol wedi ei neilltuo fel person cyswllt ar gyfer rhai sydd wedi gadael gofal, ac at y person hwnnw y dylech chi, fel myfyriwr wedi gadael gofal - neu rywun sy'n rhoi cyngor i fyfyriwr sydd wedi gadael gofal, droi am gymorth a chyngor ar unrhyw adeg o'ch taith at Addysg Uwch a thrwy gydol eich cyfnod yn y Brifysgol (gwelwch y blwch gwybodaeth ar y dde).

Cefnogaeth i fyfyrwyr sydd wedi gadael gofal

Ym Mhrifysgol Bangor, gallwn ddarparu'r canlynol:

- Arweiniad ar rag-fynediad gan ein Canolfan Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd.
- Cymorth i lenwi eich ffurflen *Cais am Gyllid Myfyrwyr*.
- Cymorth a chefnogaeth yn ystod proses gwneud cais a derbyniadau'r brifysgol.
- Cymorth gan arweinwyr cyfoed i bob myfyriwr i'w helpu i ymgartrefu yn ystod yr Wythnos Groeso ac wythnosau cyntaf y tymor.
- Cymorth ariannol wedi ei glustnodi ar gyfer rhai sydd wedi gadael gofal, drwy gyfrwng bwrsariaethau a chronfeydd ariannol wrth gefn y Brifysgol. Mae hyn yn golygu y byddwch yn cael £1,000 y flwyddyn gan Brifysgol Bangor yn ychwanegol at unrhyw fwrsariaethau neu grantiau eraill y gellwch fod yn gymwys i'w derbyn.
- Canolfan Gwasanaethau Myfyrwyr integredig, sy'n cynnig mynediad rhwydd at wasanaethau cymorth ariannol, llety, anableddau, iechyd meddwl a chynghori myfyrwyr.
- Cyfarfodydd rheolaidd rhwng y cyswllt penodol a'r myfyrwyr sydd wedi gadael gofal i ganfod eu hanghenion cymorth, gyda chyswllt rhwng adrannau'r Brifysgol ac asiantaethau allanol fel bo'n briodol (a gyda chaniatâd pendant y myfyriwr).
- Sicrwydd o lety ar gyfer myfyrwyr yn eu blwyddyn gyntaf ar gwrs is-raddedig.
- Cynllunio a threfnu llety i chi ar gyfer amser tymor ac amser gwyliau.
- Cyfrinachedd llwyr i fyfyrwyr sydd o gefndir gofal o safbwynt darparu gwasanaeth a threfniadau penodol.

Fel myfyriwr sydd wedi gadael gofal, neu rywun sy'n rhoi cyngor i un sydd wedi gadael gofal, eich cyswllt cyntaf yw: Wendy Williams, Ymgynghorydd Ariannol Myfyrwyr yn y Ganolfan Gwasanaethau Myfyrwyr. Mae Wendy'n croesawu ymholiadau gan fyfyrwyr sydd wedi gadael gofal a gan eu cynghorwyr, a gall roi mwy o fanylion i chi ar bob agwedd o ddarpariaeth cymorth y Brifysgol ar gyfer myfyrwyr sydd wedi gadael gofal – cyn iddynt gael ei derbyn a thra byddant yn astudio yma.

CYSYLLTWCH Â WENDY WILLIAMS YN Y GANOLFAN GWASANAETHAU MYFYRWYR I GAEL GWYBODAETH A CHYNGOR:
E-bost: wendy.williams@bangor.ac.uk • Ffôn: 01248 383637